# *Whiplash* (Chazelle, 2014)
## Materion yn ymwneud â chynhyrchu – Trafodaethau

## Tasg 1

Chwiliwch am eich **enghraifft eich hun** o ffilm annibynnol. Dangoswch pam ei bod yn ‘annibynnol’ trwy gyfeirio at fanylion ei hanes cynhyrchu a’i chynnwys/arddull.

Gallwch ddechrau arni yma – Astudiaethau Achos Ffilmiau Annibynnol neu ewch i IMDB os ydych chi’n gwybod beth yw teitl y ffilm rydych chi eisiau ymchwilio iddi.

## Tasg 2

Fel dosbarth cyfan, trafodwch **y prif broblemau sy’n cael eu hwynebu wrth gynhyrchu ffilm annibynnol** gan ddefnyddio’r ffilm hon a ffilmiau eraill fel astudiaethau achos. Defnyddiwch y cwestiynau ar ddiwedd Tasg 3 yn yr adran flaenorol i’ch helpu chi i baratoi ar gyfer y drafodaeth. Dylech chi ffilmio eich trafodaeth a’i rhannu ar YouTube er mwyn i chi ei defnyddio fel adnodd adolygu yn nes ymlaen.

## Tasg 3

Nid yw’r rhan fwyaf o ffilmiau annibynnol mor lwcus â *Whiplash*, ac maen nhw’n cael trafferth cael cyllid. Mae poblogrwydd Kickstarter a ffynonellau ‘ariannu torfol’ eraill wedi arwain at ddatblygiad diweddar yn y maes ariannu ffilmiau. Mae hyn yn rhoi mynediad i bawb bron at y posibiliadau ariannu. Edrychwch ar y cysylltau uchod at Kickstarter a’r gwefannau ariannu torfol eraill hyn i weld sut mae gwneuthurwyr ffilm yn eu defnyddio i geisio cael cyllid ar gyfer eu ffilmiau.

Mewn grwpiau, ewch ati i greu cyflwyniad ar gyfer gweddill y dosbarth i ddangos sut mae gwneuthurwyr ffilm yn defnyddio ariannu torfol i ddenu cyllid ac a ydych chi’n credu eu bod yn llwyddiannus.

## Tasg 4

Mewn parau, trafodwch sut gallech chi ddefnyddio beth rydych chi wedi ei ddysgu hyd yma i ateb y cwestiwn canlynol. Crëwch gynllun ar gyfer yr ateb. Defnyddiwch y deunyddiau ar *Whiplash* a’i phroses gynhyrchu, ynghyd â’r ffilmiau rydych chi wedi gwneud gwaith ymchwil iddyn nhw, fel enghreifftiau manwl i gefnogi eich prif bwyntiau. Gallech chi gymharu beth rydych chi’n ei wybod am ffilmiau stiwdio/prif ffrwd â ffilmiau annibynnol fel rhan o’ch ateb.

**Beth yw rhai o’r ffactorau allweddol sy’n dylanwadu ar y mathau o ffilmiau sy’n cael eu gwneud heddiw?**

I’ch helpu chi i strwythuro eich ateb, defnyddiwch y grid ‘PEE’ isod:

# *Whiplash* (Chazelle, 2014)
## Materion yn ymwneud â chynhyrchu – Trafodaethau

| | |
|---|---|
| P | Beth yw'r pwynt rydych chi eisiau ei wneud?<br>Sut mae'n berthnasol i'r prif bwynt? |
| E | Pa enghraifft rydych chi'n mynd i'w defnyddio i'ch helpu chi i brofi eich pwynt? |
| E | Ym mha ffordd y byddwch chi'n egluro sut mae'r enghraifft hon yn profi eich pwynt? |